CYNGOR LLYFRAU CYMRU

Pecyn Recriwtio Ymddiriedolwyr



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ein Gweledigaeth

‘Ry’n ni eisiau Cymru lle mae pob un ohonom wedi dod o hyd i’r union lyfr; y geiriau’r ydyn ni’n gwirioni arnyn nhw, sy’n ein hysbrydoli, ein haddysgu, a gwneud i ni deimlo’n well. Lle mae’r bobl sy’n rhan o’n sector yn dod â syniadau’n fyw, yn cysylltu creadigrwydd a busnes i gyflwyno straeon i ni sy’n amlochrog, yn adlewyrchu’r hyn yw Cymru yn ei chyfanrwydd ac yn canu cloch gyda phawb. I uno i wneud un peth: i ddarllen mwy a chyflawni mwy.’

Croeso gan

Linda Tomos

Cadeirydd, Cyngor Llyfrau Cymru

Diolch i chi am eich diddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr i Gyngor Llyfrau Cymru. Yn 2021, bu i ni ddathlu 60 mlynedd o wasanaeth i'n sector yn ogystal â lansio ein cynllun strategol uchelgeisiol, Cymru: Cenedl o Ddarllenwyr.



Rydym yma i sicrhau bod gan Gymru ddiwydiant cyhoeddi llewyrchus, ac y gall y bobl sy'n byw yma weithio yn ein sector neu elwa o'r ymdrechion creadigol a wneir yng Nghymru, ar gyfer pobl Cymru. Rydym ni'n cefnogi cyhoeddwyr, siopau llyfrau ac awduron i adrodd straeon niferus Cymru a'i holl gymunedau, yn Gymraeg a Saesneg.

Rydym yn hyrwyddo darllen er pleser i annog, ysbrydoli a rhannu cariad at ddarllen i bawb. Ein gweledigaeth yw Cymru lle gall pawb fod yn ddarllenydd, a lle mae gan bawb fynediad at lyfrau waeth beth fo'u gallu i'w fforddio. Rydym yn elusen genedlaethol, a daw ein cyllid yn rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol ac yn rhannol o weithrediadau masnachol ein Canolfan Ddosbarthu.

Rydym yn chwilio am Ymddiriedolwyr newydd a chanddynt wybodaeth a phrofiad penodol i gryfhau ein Bwrdd. Rydym yn chwilio am unigolion sydd ag ymrwymiad cryf i lenyddiaeth a'r sector cyhoeddi yng Nghymru ac sy'n credu yn ngrym trawsnewidiol darllen.

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn Ymddiriedolwyr sy'n gwerthfawrogi dwyieithrwydd ac yn deall sut mae'n effeithio ar ein sefydliad, y sector a Chymru gyfan. Mae hwn yn gyfle cyffrous i eirioli ar ran ein sefydliad a'r sector ac i wneud cyfraniad hirhoedlog i'r diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Mae ein cynllun strategol yn tanlinellu Cynrychiolaeth Deg fel un o'i brif flaenoriaethau gan ei fod yn hanfodol i ansawdd a chyfoeth y sector cyhoeddi yng Nghymru, ac rydym am i'n Bwrdd adlewyrchu'r amrywiaeth hwnnw. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o gefndiroedd sydd wedi eu tan-gynrychioli sydd â'r rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i'n cefnogi i gyflawni ein blaenoriaethau strategol yn ogystal ag ymateb i gyfleoedd a heriau dros y blynyddoedd sydd i ddod.

P'un a ydych chi'n ymddiriedolwr elusennol profiadol neu'n chwilio am eich swydd gyntaf yn aelod o fwrdd, ac os ydych chi'n rhannu ein hangerdd dros gyhoeddi a darllen a bod gennych hefyd y rhinweddau, yr wybodaeth a'r profiad yr ydym yn chwilio amdanynt, yna rydym am glywed gennych.

Linda Tomos
Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Yr hyn a wnawn

Rydym yma i sicrhau bod gan Gymru ddiwydiant cyhoeddi llewyrchus, ac y gall y bobl sy'n byw yma weithio yn ein sector neu elwa o'r ymdrechion creadigol sy'n cael eu gwneud yng Nghymru, ar gyfer pobl Cymru.

Ni yw prif gyllidwyr y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, gan ddosbarthu tua £2.3m o grantiau ar ran Llywodraeth Cymru a chynhyrchu 45% o gyfanswm ein hincwm drwy ein Canolfan Ddosbarthu fasnachol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cefnogi 12 prif gyhoeddwr (Cymraeg a Saesneg), 273 o lyfrau Cymraeg a Saesneg, 21 cylchgrawn a 19 FTE o swyddi.. Mae ein Hadran Hyrwyddo Darllen yn arwain ar yr agenda darllen er pleser ac yn gweithio'n agos gydag ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau eraill yn y trydydd sector.

Mae unrhyw elw a wneir gan y Ganolfan Ddosbarthu, ein braich fasnachol ddielw, drwy ei gwasanaethau dosbarthu yn cael ei ailfuddsoddi yn y sector, yn bennaf drwy gymorthdaliadau anuniongyrchol. Yn gyffredinol, mae ein sector yn cynnwys meicro-fentrau ac rydym yn defnyddio ein gallu a'n harbenigedd i ddarparu gwasanaethau lle mae graddfa'n bwysig ac o fudd i'r sector cyfan.

Am ragor o fanylion ac am uchafbwyntiau ein gwaith ewch i **llyfrau.cymru/ein-polisiau/dogfennau-corfforaethol/**

Ein Gwerthoedd

Credwn

- yng ngrym trawsnewidiol darllen er pleser
- mewn cefnogi sector cyhoeddi sy'n agored a chroesawgar ac sy'n ffynnu ar greadigrwydd a chydweithio
- fod diwylliannau ac ieithoedd amrywiol yn cyfoethogi ein bywydau a'n cymunedau
- fod y Gymraeg yn perthyn i bob un ohonom
- fod angen i ni fod yn rhagweithiol wrth ddenu'r bobl, y sgiliau a'r profiadau sy'n adlewyrchu Cymru gyfan.

Cwrdd â'r Bwrdd

Linda Tomos
Cadeirydd

Rona Aldrich
Is-Cadeirydd

Yr Athro Jane Aaron
Ysgrifennydd Mygedol

Alfred Oyekoya
Trysorydd Mygedol

Meinir Ebbsworth
Ymddiriedolwr

Lowri Ifor
Ymddiriedolwr

Yr Athro Carwyn Jones
Ymddiriedolwr

Alwena Hughes Moakes
Ymddiriedolwr

Ruth Thomas
Ymddiriedolwr

Yr Athro M. Wynn Thomas
Ymddiriedolwr

Dr Caroline Owen Wintersgill
Ymddiriedolwr

Os hoffech wybod mwy am yr Ymddiriedolwyr presennol, gellir gweld eu proffiliau yma **llyfrau.cymru/adrannau/ymddiriedolwyr/bwrdd-ymddiriedolwyr-2/**

Fel Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, rydym yn darparu cyfeiriad strategol a her adeiladol i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Rheoli i sicrhau bod y Cyngor Llyfrau yn cyflawni ei amcanion allweddol ac yn cael ei reoli'n effeithiol.

Fel Ymddiriedolwyr rydym yn ymrwymo i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan: Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn agored, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth. Rydym yn gweithio'n unol â'r Cod Llywodraethu i Elusennau.

Rydym yn cynnal pedwar cyfarfod Bwrdd y flwyddyn ac ar hyn o bryd cefnogir ein Bwrdd gan ddau is-bwyllgor ffurfiol: yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi (Cymraeg) sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, a'r Is-bwyllgor Datblgu Cyhoeddi (Saesneg) sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Gall y Bwrdd hefyd fanteisio ar arbenigedd y Grŵp Ymgynghorol Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen ac rydym newydd sefydlu grŵp ymgynghorol allanol ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae cyfle i'r Ymddiriedolwyr ymuno â'r is-bwyllograu a'r grwpiau ymgynghorol hyn.

I wybod mwy am ein Cyfansoddiad a'n Cylch Gorchwyl, ewch i llyfrau.cymru/ein-gwaith/

Bod yn Ymddiriedolwr

Fel Ymddiriedolwr bydd cyfle i chi

- fod yn llysgennad i'r Cyngor Llyfrau a'r gwaith a wneir gennym
- cyfrannu at lunio cyfeiriad strategol y Cyngor Llyfrau, gan sicrhau ein bod yn bodloni ein hamcanion strategol
- sicrhau bod gan y Cyngor Llyfrau bolisïau yn eu lle sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol ac sy'n hyrwyddo arfer da
- gwneud yn siŵr bod unrhyw adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol wrth gydymffurfio â'r amcanion elusennol a'u bod yn cael eu monitro
- cyfrannu at osod nodau a thargedau gan werthuso'r perfformiad yn eu herbyn
- sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol
- diogelu enw da a gwerthoedd y Cyngor Llyfrau
- sicrhau bod anghenion y sector llyfrau yng Nghymru wastad wrth wraidd y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor Llyfrau
- cymryd rhan yng nghyfarfodydd y Bwrdd i sicrhau bod penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd yn cael eu gweithredu
- mynychu unrhyw sesiynau hyfforddi a datblygu i hyrwyddo eich gwybodaeth a'ch datblygiad yn eich rôl fel Ymddiriedolwr.

Rydym yn chwilio am Ymddiriedolwyr

- sy'n meddu ar ymrwymiad clir i nodau ac amcanion strategol y Cyngor Llyfrau fel y cânt eu hamlinellu yn y cynllun strategol
- sy'n meddu ar ddealltwriaeth o'r amgylchedd y mae'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn gweithredu o'i fewn
- sy'n meddu ar werthfawrogiad o lenyddiaeth Cymru yn y ddwy iaith, ac yn credu yng ngrym trawsnewidiol darllen
- sy'n gwerthfawrogi ac yn deall dwyieithrwydd a sut mae'n effeithio ar ein sefydliad, y sector a Chymru gyfan
- sy'n gallu dangos ymrwymiad clir i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn perthynas â'u maes arbenigedd eu hunain a'r sector cyhoeddus yn ei gyfanrwydd
- sy'n gallu dangos dealltwriaeth o'r amgylchedd polisi a deddfwriaeth y mae ein sefydliad yn gweithredu ynddo yng Nghymru
- sy'n meddu ar sgiliau cyfathrebu ardderchog, yn gallu herio'n adeiladol ond hefyd yn gallu meithrin consensws
- sy'n gallu dangos sgiliau strategol a dadansoddol cryf
- sydd eisiau bod yn aelod gweithgar o'r Bwrdd, gan gynnig ymrwymiad o ran yr amser a'r gwaith meddwl angenrheidiol.

Cyfarfodydd ac ymrwymiad o ran amser

Mae ein sefydliad yn gweithredu'n ddwyieithog ac yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer holl gyfarfodydd y Bwrdd a'r Cyfarfod Blynyddol. Darperir papurau'r Bwrdd yn y Gymraeg a'r Saesneg a gall aelodau'r Bwrdd ddewis gweithredu a chyfathrebu yn Gymraeg neu yn Saesneg fel y dymunant.

Gofynnwn i'n Hymddiriedolwyr baratoi ar gyfer mynychu a chyfrannu ym mhob cyfarfod Bwrdd ac ymuno ag is-bwyllgorau, grwpiau ymgynghorol neu grwpiau gorchwyl a gorffen ad hoc eraill yn ôl y gofyn. Cynhelir pedwar cyfarfod y flwyddyn yn Aberystwyth (wyneb yn wyneb, hybrid neu dros Zoom) ar hyn o bryd, gyda'n Cyfarfod Blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf. Rydym yn amcangyfrif bod yr ymrwymiad blynyddol i'n Hymddiriedolwyr tua 6–7 diwrnod y flwyddyn.

Anwytho a chefnogaeth

Ar ôl eu penodi, bydd Ymddiriedolwyr yn cael rhaglen anwytho a fydd yn golygu dod i adnabod y sefydliad a dod yn gyfarwydd â rôl Ymddiriedolwr os yw'n briodol. Byddwch hefyd yn cael cynnig cyfarfodydd gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ac yn cael eich annog i gwrdd â'n cyd-weithwyr yn y Ganolfan Ddosbarthu ac yng Nghastell Brychan. Lle bo angen, byddwn yn darparu cyfarpar i hwyluso cymryd rhan mewn cyfarfodydd dros Zoom. Rydym wedi ymrwymo i wneud rôl Ymddiriedolwr yn brofiad cadarnhaol ac yn fuddiol i bawb, ac rydym yn croesawu adborth ar sut y gallwn barhau i wella ein prosesau llywodraethu.

Taliadau

Mae swydd Ymddiriedolwr yn ddi-dâl. Fodd bynnag, bydd pob cost resymol a achoswyd gan fusnes yr elusen yn cael ei had-dalu yn unol â'n polisi treuliau.

Tymor y swydd

Penodir Ymddiriedolwyr am gyfnod cychwynnol o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o'i ymestyn am un cyfnod arall o bedair blynedd.

Gwrthdaro buddiannau

Bydd angen ystyried a ydych chi neu unrhyw aelod o'ch teulu yn derbyn arian cyhoeddus gan y Cyngor Llyfrau. Er bod modd datgan budd ar fater penodol, dylid ystyried gwrthdaro buddiannau sylweddol yn ofalus cyn gwneud cais.

Gofynion cyfreithiol rôl Ymddiriedolwr

Mae pob Ymddiriedolwr yn unigol ac yn gyfreithiol gyfrifol am yr elusen y mae'n ei llywodraethu. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y cyfrifoldebau hyn, ewch i wefan y Comisiwn Elusennau, i'r **Ymddiriedolwr Hanfodol.**

Sut i wneud cais

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr i'r Cyngor Llyfrau ac os hoffech gael mwy o wybodaeth am y rôl, cysylltwch â Menai Lloyd Williams, Swyddog Llywodraethiant, ar 01970 624151 neu menai.williams@llyfrau.cymru. Gallwch drefnu sgwrs anffurfiol gyda naill ai Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, Linda Tomos, neu'r Prif Weithredwr, Helgard Krause, i'ch helpu i benderfynu a yw'r rôl yn addas i chi.

Os oes angen gwneud addasiadau arnoch i gymryd rhan yn y broses ymgeisio neu gyfweld, cysylltwch â Menai Lloyd Williams ar 01970 624151 neu menai.williams@llyfrau.cymru

I wneud cais, anfonwch gopi o'ch CV ynghyd â llythyr (dim mwy na 2 dudalen A4) yn amlinellu pam yr hoffech ddod yn un o Ymddiriedolwyr y Cyngor Llyfrau a pha brofiadau a sgiliau penodol fyddai o fudd i'n sefydliad. **Cofiwch hefyd gynnwys y Ffurflen Gwrthdaro Buddiannau a'r Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Llun, 23 Medi 2024. Byddwn yn cynnal cyfweliadau ar ddiwedd Medi/dechrau Hydref. Byddwn yn hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus, ac yn gofyn iddynt fynychu eu cyfarfod Bwrdd cyntaf (hybrid) a fydd yn cael ei gynnal ddiwedd Ionawr 2025 am 18:00 o'r gloch ar ôl i'w hapwyntiad gael ei gadarnhau fel y pwynt busnes cyntaf ar yr agenda.